8th March 2018
The thirteenth meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Institute, Pontarddulais

Attendees
Cllr Paul Northcote, Mawr Community Council
Emma North, Planning, City and County of Swansea
Sgt. Philip Morris, South Wales Police (SWP)
Matt Collins, SWP
Bryony Kamratov-Jones, SWP
Christopher Watts, SWP
David Owen, Planning Dept. City and County of Swansea
Alun Thomas, Highways, City and County of Swansea
Cllr. Kevin Griffith, Pontarddulais Town Council
Paul Newman, Pontlliw and Tircoed Community Council
Cllr Wyn Morgan Penllergaer Community Council
David Flatley, Farrans
Brigitte Rowlands, WGCA
Philip McDonnell, Chair
Tim James, Construction Project Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Welcome and introductions
The chair welcomed the group and asked everyone to introduce themselves, as there were new attendees present, including a number of PCSO's, attending as part of their induction.

2. Apologies
2.1 Cllr Robert Jones, Mawr Community Council, has informed AD that he is stepping down from the Community Council. PN (Mawr) confirmed that the Council would be nominating a replacement representative at their next meeting.
2.2 Jenny Cowley, Community Liaison Manager, Innogy Renewables UK Ltd

3. Minutes & matters arising
3.1 The WGCA has now erected fencing near to the cattle grid, and this matter is now closed.
3.2 The Chair asked members whether they were passing correspondence on to Jenny Cowley, following the discussion at the last meeting (4.2), and members confirmed that they were doing so.
3.3. Litter accumulating behind fences at the site entrance is being regularly cleared by Farrans (action 5.9).
3.4 KG commented on how little had been raised with him by constituents since the last meeting.
3.5 AT confirmed that he had carried out a site visit to look at road safety (5.14 ARUP report) and is satisfied that a small number of issues can be remedied quite easily.
3.6 An update on the community benefit fund (7.9) will be provided later in the meeting.
3.7 The minutes were agreed as a true record of the previous meeting. Proposed by EN and seconded by WM.

4. Correspondence
4.1 KG had received an item of correspondence and passed this on to JC. TJ will cover this during his update.

5. Update from Tim James

5.1 Work is gathering pace, and the welfare facilities and compound are up and running. TJ commented that they are amongst the best facilities he has seen on any project he has worked on.

5.2 Approximately 15km of fencing has been erected by local contractor, Joe Jones, and this is out of a total of 24km.

5.3 The surface water drainage ditches are being installed, and revegetation is being carried out in tandem, as this helps with drainage, and it means that the area can be restored more quickly.

5.4 Thus far, Farrans have completed approximately 2,300 metres of swales, and 2,100 metres of road.

5.5 A helicopter is being used to move 70km of duct across the site more quickly. This also has the advantage of reducing the number of vehicle movements on the ground.

5.6 Cable plough will be mobilised next week.

5.7 Excavation for the turbine foundations will have begun by the time of the next CLG meeting. The soil that is excavated is kept in close proximity to the excavation site and will be re-used as topsoil and to re-vegetate the area.

5.8 TJ informed BR that fencing the drive of local residents, Mr and Mrs Williams, was due to take place in mid-March. This has been an ongoing issue, and BR was pleased that the fencing was now scheduled to take place.

5.9 TJ has instructed Farrans to reinstate the layby at Five Roads, and DF confirmed that, weather permitting, this work would be carried out in two weeks.

5.10 After successfully keeping the roads free of mud for some time, there has been an unfortunate step backwards, with more debris appearing on local roads. This is probably due to the fact that Farrans changed their stone supplier, and the new drivers are having to be instructed afresh on the expected standards. Farrans has spoken to the haulier and will continue to monitor the situation.

5.11 TJ has asked Farrans to put in more passing places along the route.

5.12 Unfortunately, the original location for the dry wheel cleaning facility is too steep, and for health and safety reasons it cannot be installed. Other options are being looked at, and in the meantime, a pressure washer is being used on site.

5.13 Local Authority planning officers and highways officers have been on site to inspect progress.

5.14 It was noted that a 4x4 which had been used for joy-riding on the common and had got stuck, had now been removed.

5.15MC commented that anti-social behaviour by off-road bikers was a persistent problem, and SWP were monitoring this very closely. The matter of anti-social use of the local roads and common is a long-standing problem and will need to be discussed at future meetings. It is thought that the construction presence may prevent some from using the common for this sort of anti-social activity.

5.16 There is 24/7 security on site.

5.17 PN (Pontlliw) commented that Community Councillors has raised the issue of construction vehicles travelling on Bolgoed Road at speed. The speed limit is 40 mph, and PN has advised Councillors to note the number plate of speeding vehicles in future. He has also noted that some loads are not covered by sheeting to prevent spills on the road. TJ confirmed that drivers are conditioned to sheet their loads.

5.18 A local resident has contacted innogy about the noise caused by lorries passing her property. Innogy has carried out noise monitoring and the levels do rise to between 2-3 DB when a lorry passes by. It is thought that potholes on the road, causing the empty wagons to bounce and rattle, may be the cause of the higher than normal noise, and as a result, Farrans are temporarily filling in these potholes. Unfortunately, they cannot do a permanent fix as yet, because Wales and West Utilities have not pinpointed the location of their 450mm gas pipeline that runs along the route.

6. Written update from Jenny Cowley

6.1 JC has received an update on progress with the community fund from Kathryn Harris, innogy's community investment manager: The Mawr consultation is being organised. There is no progress to report on fund set up, and this is not due to start in earnest until the autumn, at which point

representatives will be sought to sit on the panel. In the meantime, anyone looking for support to develop ideas, should contact SCVS directly.
6.2 Concerns have been reported about the speed of vehicles coming up the track. Farrans have spoken to the supplier.
6.3 There has been one report of lorries coming through the village. Again, Farrans have spoken to the drivers.
6.4 KG passed on correspondence regarding fly-tipping. It transpires that the fly-tipping is on an area of land associated with the neighbouring flood-alleviation scheme and Dawnus (the flood-alleviation contractor) has been notified.
6.5 The Local Authority Public Rights of Way (PRoW) Officer has received correspondence from local residents complaining that PRoWs have closed, claiming that the closures are not necessary. Unfortunately, the closures are necessary, as there will be a significant number of large vehicles using these tracks and it is unsafe for members of the public to be on them. All PRoW closures were planned properly in advance.

7. AOB
7.1 The Chair mentioned the availability of Rural Development Plan funding as a means of helping communities to develop good projects, in advance of the wind farm community benefit fund becoming available. Some members had not had a good experience of submitting applications for funding and they felt that the focus of the RDP funding was commercial, rather than community focussed.
7.2 PN (Mawr) queried whether blasting techniques would be used when creating foundations for the turbines. Farrans confirmed that there was no need for them to blast, and they would only be using excavation machinery. As discussed earlier, the soil will be re-used for re-vegetation purposes and the objective is to blend the turbine foundations in to the local landscape as much as possible.
7.3 Members were asked to note that Llangyfelach Road is due to close on Thursday and Friday so that Highways could mend potholes. This work is not related to the wind farm.
7.4 BR has been asked to obtain some digital files submitted as part of the planning process. DO will respond to the request.

8. Next meeting:
8.1 The next meeting will be held at 6 pm on Thursday 19th April at Tircoed Village Hall (subject to availability).
8.2 The meeting concluded at 7.00 pm.

8fed Mawrth 2018
Trydydd cyfarfod ar ddeg o Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair yn Yr Institiwt ym Mhontarddulais

Mynychwyr
Y Cynghorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr
Emma North, Adran Gynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Sarsiant Philip Morris, Heddlu De Cymru (HDC)
Matt Collins, HDC
Bryony Kamratov-Jones, HDC
Christopher Watts, HDC
David Owen, Adran Gynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Alun Thomas, Adran Briffyrdd, Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd Kevin Griffith, Cyngor Tref Pontarddulais
Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Y Cynghorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penllergaer
David Flatley, *Farrans*
Brigitte Rowlands, CCGM
Philip McDonnell, Cadeirydd
Tim James, Rheolwyr Prosiectau Adeiladu, *Innogy Renewables UK* Cyf.
Angharad Davies, *Cadno Communications* Cyf.

1. Croeso a chyflwyniadau
Croesawyd y grŵp gan y cadeirydd a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain, oherwydd bod rhai mynychwyr newydd yn bresennol, yn cynnwys nifer o SCCHau, a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel rhan o'u cwrs cynefino.

2. Ymddiheuriadau
2.1 Mae'r Cynghorydd Robert Jones, o Gyngor Cymuned Mawr, wedi rhoi gwybod i AD ei fod yn rhoi'r gorau i'w ddyletswyddau gyda'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd PN (Mawr) y byddai'r Cyngor yn enwebu cynrychiolydd yn ei le yn eu cyfarfod nesaf.
2.2 Jenny Cowley, Rheolwr Cyswllt Cymunedol, *Innogy Renewables UK* Cyf

3. Cofnodion a materion sy'n codi
3.1 Mae CCGM yn awr wedi adeiladu ffens wrth ymyl y grid gwartheg, ac mae'r mater hwn yn awr wedi cau.
3.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oedden nhw'n pasio gohebiaeth ymlaen at Jenny Cowley, yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf (4.2), a chadarnhaodd yr aelodau eu bod yn gwneud hynny.
3.3. Mae sbwriel sy'n casglu y tu ôl i'r ffensys wrth fynedfa'r safle yn cael ei glirio yn rheolaidd gan *Farrans* (cam gweithredu 5.9).
3.4 Tynnodd KG sylw at y ffaith fod cyn lleied wedi cael ei godi gydag ef gan etholwyr ers y cyfarfod diwethaf.
3.5 Cadarnhaodd AT ei fod wedi cynnal ymweliad â'r safle er mwyn edrych ar ddiogelwch y ffyrdd (adroddiad ARUP 5.14) ac mae ef yn fodlon y gall nifer fechan o broblemau gael eu cywiro yn eithaf hawdd.
3.6 Bydd diweddariad ynglŷn â'r gronfa budd cymunedol (7.9) yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach yn y cyfarfod.
3.7 Cytunwyd bod y cofnodion yn wir gofnod o'r cyfarfod blaenorol. Cynigiwyd gan EN ac eiliwyd gan WM.

4. Gohebiaeth
4.1 Roedd KG wedi derbyn eitem o ohebiaeth ac wedi'i rhoi i JC. Bydd TJ yn ymdrin â hyn yn ystod ei ddiweddariad.

5. Diweddariad gan Tim James

5.1 Mae'r gwaith yn cyflymu, ac mae'r cyfleusterau lles a'r cwrt yn barod. Tynnodd TJ sylw at y ffaith eu bod ymysg y cyfleusterau gorau y mae wedi'u gweld mewn unrhyw brosiect y mae ef wedi gweithio arno.

5.2 Codwyd oddeutu 15km o ffensys gan gontractwr lleol, sef Joe Jones, ac mae hyn allan o gyfanswm o 24km.

5.3 Mae'r ffosydd draenio dŵr ar y wyneb yn cael eu gosod, ac mae aildyfu yn digwydd ochr yn ochr â hyn, oherwydd ei fod yn helpu gyda draenio, ac yn golygu y gellir adfer yr ardal yn gyflymach.

5.4 Hyd yma, mae *Farrans* wedi cwblhau oddeutu 2,300 metr o bantiau a 2,100 metr o ffyrdd.

5.5 Mae hofrennydd yn cael ei ddefnyddio i symud 70km o bibell ar draws y safle yn gyflymach. Mae mantais yn ogystal i hyn, sef lleihau'r nifer o symudiadau gan gerbydau ar y tir.

5.6 Bydd aradr cebl yn cael ei ddefnyddio wythnos nesaf.

5.7 Bydd cloddio ar gyfer sylfeini'r tyrbinau wedi dechrau erbyn amser y cyfarfod GCC nesaf. Mae'r pridd sy'n cael ei gloddio yn cael ei gadw yn agos at safle'r cloddio a bydd yn cael ei ailddefnyddio fel pridd uchaf ac ar gyfer aildyfu yn yr ardal.

5.8 Rhoddodd TJ wybod i BR fod dreif y preswylwyr lleol, Mr a Mrs Williams, ar fin cael ei ffensio yng nghanol mis Mawrth. Bu hwn yn fater parhaus, ac roedd BR yn falch o ddweud bod y ffensio yn awr am gael ei wneud.

5.9 Mae TJ wedi rhoi cyfarwyddiadau i *Farrans* adfer y gilfan yn Five Roads, a chadarnhaodd DF y byddai'r gwaith, os yw'r tywydd yn caniatáu, yn cael ei wneud mewn pythefnos.

5.10 Ar ôl cadw'r ffyrdd yn llwyddiannus heb fwd am ychydig amser, bu cam anffodus yn ôl, gyda mwy o rwbel yn ymddangos ar ffyrdd lleol. Mae'n debyg bod hyn oherwydd y ffaith fod *Farrans* wedi newid ei gyflenwr cerrig, ac mae'r gyrwyr newydd yn gorfod cael eu cyfarwyddo o'r newydd ynglŷn â'r safonau disgwyliedig. Roedd *Farrans* wedi siarad â'r cludwr a bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

5.11 Gofynnodd TJ i *Farrans* roi mwy o leoedd ar gyfer pasio ar hyd y ffordd.

5.12 Yn anffodus, mae'r lleoliad gwreiddiol ar gyfer y cyfleuster sych ar gyfer glanhau olwynion yn rhy serth, ac oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, ni ellir ei osod. Mae dewisiadau eraill yn cael eu hystyried, ac yn y cyfamser, mae golchwr pwysedd uchel yn cael ei ddefnyddio ar y safle.

5.13 Mae swyddogion cynllunio a swyddogion priffyrdd wedi bod ar y safle er mwyn archwilio'r cynnydd.

5.14 Nodwyd bod cerbyd 4 x 4 a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer jolihoetio ar y comin ac wedi mynd yn sownd, yn awr wedi cael ei dynnu oddi yno.

5.15 Tynnodd MC sylw at y ffaith bod ymddygiad gwrthgymdeithasol gan feicwyr oddi ar y ffordd yn broblem barhaus, ac roedd HDC yn monitro hyn yn agos iawn. Mae'r broblem o ddefnyddio ffyrdd lleol a'r comin yn wrthgymdeithasol yn hen broblem, a bydd angen ei thrafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Tybir bod presenoldeb y gwaith adeiladu yn gallu atal rhai i ddefnyddio'r comin ar gyfer y math hwn o weithgaredd gwrthgymdeithasol.

5.16 Mae diogelwch 24/7 ar y safle.

5.17 Tynnodd PN (Pontlliw) sylw at y ffaith bod Cynghorwyr Cymuned wedi codi'r mater o gerbydau adeiladu yn teithio yn gyfym ar Ffordd Bolgoed. Y terfyn cyflymder yw 40 mya, ac mae PN wedi cynghori Cynghorwyr i nodi rhif cofrestru'r cerbydau sy'n goryrru yn y dyfodol. Nododd hefyd nad yw rhai llwythi yn cael eu gorchuddio er mwyn osgoi gorlifiadau ar y ffordd. Cadarnhaodd TJ fod gyrwyr wedi arfer gorchuddio eu llwythi.

5.18 Mae preswyliwr lleol wedi cysylltu ag *Innogy* ynglŷn â'r sŵn a achosir gan lorïau sydd yn pasio ei thŷ. Mae *Innogy* wedi monitro'r sŵn ac mae'r lefelau yn codi rhwng 2-3 dB pan mae lori yn pasio. Tybir bod tyllau ar y ffordd, sy'n achosi'r cerbydau gwag i fownsio a ratlo, a gall hyn fod yr achos bod y sŵn yn uwch na'r arferol, ac o ganlyniad, mae *Farrans* yn llenwi'r tyllau dros dro. Yn anffodus, ni allan nhw wneud hyn yn barhaol eto, oherwydd nid yw *Wales and West Utilities* wedi nodi lleoliad eu pibell nwy 450mm a fydd yn rhedeg ar hyd y ffordd.

6. Diweddariad ysgrifenedig gan Jenny Cowley

6.1 Mae JC wedi derbyn diweddariad ynglŷn â'r cynnydd gyda'r gronfa gymunedol gan Kathryn

Harris, rheolwr buddsoddi cymunedol *Innogy*: Mae ymgynghoriad Mawr yn cael ei drefnu. Nid oes unrhyw gynnydd i'w adrodd ynglŷn â sefydlu'r gronfa, ac nid yw hwn i fod i ddechrau o ddifrif tan yr hydref, pan fyddwn yn chwilio am gynrychiolwyr i eistedd ar y panel. Yn y cyfamser, dylai unrhyw un sy'n chwilio am gefnogaeth i ddatblygu syniadau, gysylltu â CGGA yn uniongyrchol.

6.2 Mae pryderon wedi cael eu hadrodd ynglŷn â chyflymdra'r cerbydau sy'n teithio i fyny'r trac. Mae *Farrans* wedi siarad gyda'r cyflenwr.
6.3 Bu un adroddiad ynglŷn â lorïau yn dod drwy'r pentref. Unwaith eto, mae *Farrans* wedi siarad gyda'r gyrwyr.
6.4 Pasiodd KG ohebiaeth ymlaen ynglŷn â thipio anghyfreithlon. Ymddengys bod y tipio anghyfreithlon ar ddarn o dir sy'n gysylltiedig â chynllun lliniaru llifogydd cyfagos ac mae Dawnus (y contractwr lliniaru llifogydd) wedi cael eu hysbysu.
6.5 Mae Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) yr Awdurdod Lleol wedi derbyn gohebiaeth gan breswylwyr lleol yn cwyno bod HTCau wedi cau, gan hawlio nad yw'r cau yn angenrheidiol. Yn anffodus, mae'r cau yn angenrheidiol, oherwydd bydd nifer sylweddol o gerbydau mawr yn defnyddio'r traciau hyn ac mae'n anniogel i aelodau o'r cyhoedd gerdded arnyn nhw. Roedd cau'r holl HTCau wedi cael ei gynllunio yn iawn ymlaen llaw.

7. UFA
7.1 Crybwyllodd y Cadeirydd yr argaeledd o gyllid Cynllun Datblygu Gwledig fel modd o helpu cymunedau i ddatblygu prosiectau da, cyn i gronfa budd cymunedol y fferm wynt fod ar gael. Nid oedd rhai aelodau wedi cael profiad da wrth gyflwyno ceisiadau am gyllid ac roedden nhw'n teimlo bod ffocws y cyllid CDG yn fasnachol, yn hytrach nag yn canolbwyntio ar y gymuned.
7.2 Holodd PN (Mawr) a fyddai technegau ffrwydro yn cael eu defnyddio wrth greu sylfeini ar gyfer y tyrbinau. Cadarnhaodd *Farrans* nad oedd unrhyw angen iddyn nhw ffrwydro, a bydden nhw'n defnyddio peiriannau cloddio yn unig. Fel y trafodwyd yn gynharach, bydd y pridd yn cael ei ailddefnyddio ar gyfer dibenion ailddyfu a'r amcan yw ymdoddi sylfeini'r tyrbinau yn y dirwedd leol cymaint ag sy'n bosibl.
7.3 Gofynnwyd i aelodau nodi bod Ffordd Llangyfelach ar fin cau ar ddydd Iau a dydd Gwener fel y gallai'r Priffyrdd atgyweirio'r tyllau. Nid yw'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r fferm wynt.
7.4 Gofynnwyd i BR ddod o hyd i rai ffeiliau digidol a gyflwynwyd fel rhan o'r broses gynllunio. Bydd DO yn ymateb i'r cais.

8. Cyfarfod nesaf:
8.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6pm ddydd Iau, 19eg Ebrill yn Neuadd Bentref Tirgoed (yn amodol ei bod ar gael).
8.2 Daeth y cyfarfod i ben am 7.00pm.